Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Llandybie

**Llandybie**
**Rhydaman**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 3JB**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Llandybie

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Sirol Llandybie |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 239 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 182 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 35 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 21.5% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran genedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 22.2%) | 26.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 36.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 03/04/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 17/09/2013 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Llandybie yn gymuned ddysgu ofalgar a chyfeillgar sy’n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da disgyblion yn llwyddiannus. Elfen nodedig o’r ddarpariaeth yw’r ffordd mae’r staff yn ymrwymo’n effeithiol drwy nifer o weithgareddau dyddiol i sicrhau lles disgyblion, gan gynnwys eu lles emosiynol.  Mae’r  rhan fwyaf o’r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn cyfathrebu’n hyderus yn y Gymraeg a’r Saesneg â’u cyfoedion a staff yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon ac yn ysgrifennu mewn gwahanol arddulliau a chyd-destunau’n llwyddiannus. Mae medrau rhifedd a digidol y rhan fwyaf o’r disgyblion yn datblygu’n dda, ac maent yn eu cymhwyso’n fedrus wrth ymroi’n frwdfrydig i weithgareddau dosbarth.

Mae gan y disgyblion lais cryf ym mywyd yr ysgol, a thrwy grwpiau amrywiol, maent yn dylanwadu’n gadarnhaol ar ddarpariaeth ac ethos yr ysgol. Er enghraifft, mae’r Criw Cymraeg yn gweithio’n ddiflino i hyrwyddo defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy’n galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau’n briodol. Ar frig yr ysgol, mae’r profiadau a gynllunnir yn cynnig her a sbardun, gan danio dychymyg y disgyblion a’u galluogi i ddatblygu ystod eang o fedrau, gan gynnwys eu medrau creadigol, yn effeithiol iawn. Er hyn, mae lle i rannu’r arfer dda hon gydag athrawon ar draws yr ysgol i ehangu ymhellach y cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau trawsgwricwlaidd a chreadigol o fewn y profiadau dysgu. Er bod y disgyblion o oedran cynnar yn ddysgwyr annibynnol llwyddiannus, does dim digon o gyfleoedd iddynt wneud dewisiadau yn annibynnol mewn perthynas â’u dysgu.

Mae’r pennaeth ac aelodau’r uwch dîm yn arwain yr ysgol yn dda ac yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg sy’n cefnogi lles y disgyblion a’u galluogi i gyflawni safonau uchel. Mae’r trefniadau hunanwerthuso yn cael eu gweithredu’n effeithiol ac mae ymarferwyr a llywodraethwyr yn rhan o’r broses o adnabod cryfderau a datblygu agweddau penodol i’w gwella. Caiff arbenigeddau aelodau’r corff llywodraethol eu defnyddio’n bwrpasol ac mae ganddynt adnabyddiaeth gref o’r ysgol ac maent yn cefnogi’r staff yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau sylfaenol a chreadigol y tu fewn a thu allan i’r ystafell ddosbarth

A2 Sicrhau bod gan pob disgybl ym Mlynyddoedd 1 a 2 fynediad cyson i ardaloedd dysgu ysgogol sy’n ddatblygiadol addas o fewn a thu allan i’r ystafell ddosbarth

A3 Ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau mewn perthynas â’u dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sy’n cyfateb i’r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran, oni bai am y Gymraeg, lle mae’r iaith yn newydd i lawer ohonynt.

Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn adeiladu’n llwyddiannus ar eu dysgu blaenorol ac yn cymhwyso gwybodaeth newydd yn gyflym i brofiadau a sefyllfaoedd newydd.

Mae medrau siarad a gwrando bron pob un o’r disgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae llawer o’r disgyblion sy’n cychwyn yn yr ysgol heb fedrau Cymraeg yn defnyddio’r iaith yn bwrpasol erbyn diwedd y dosbarth derbyn. Er enghraifft, maent yn defnyddio geirfa briodol a brawddegau syml i recordio adroddiad newyddion am ddiflaniad Fflap yr hwyaden. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sgwrsio’n hyderus yn y Gymraeg gydag oedolion, gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafaredd ymhellach yn ystod eu hamser o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, gan ddechrau ystyried y gynulleidfa yn bwrpasol. Mae Cymraeg llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy'r Saesneg yn gadarn iawn, ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o Gymreictod a diwylliant yr ardal.

Mae medrau darllen cadarn yn cael eu defnyddio gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn darllen ystod o destunau yn glir a dealladwy. Maent yn ymateb i gynnwys eu llyfrau yn dda ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn bwyllog trwy ddefnyddio strategaethau ffoneg bwriadus. Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ynganu’n glir wrth ddarllen yn y ddwy iaith. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn ymchwilio’n ystyrlon ar y we, er enghraifft i ganfod gwybodaeth a chreu pecyn croeso i ffoaduriaid o’r Wrcain sy’n dod draw am loches i Gymru. O ganlyniad, maent yn defnyddio’u medrau darllen uwch yn gynhyrchiol i gywain gwybodaeth benodol o wahanol ffynonellau defnyddiol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol. Mae’r disgyblion yn dechrau creu marciau ac ysgrifennu llythrennau a geiriau unsill yn y dosbarth derbyn wrth iddynt gofnodi mewn amrywiaeth addas o weithgareddau. Maent yn dod yn gynyddol annibynnol ac, erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o’r disgyblion yn datblygu eu syniadau’n synhwyrol gyda’r rhan fwyaf â gafael gadarn ar atalnodi a sillafu.

Erbyn i ddisgyblion gyrraedd Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu’n gynyddol fyfyrgar a dychmygus yn y ddwy iaith, gan ddangos gafael sicr ar elfennau iaith ac ystod o ffurfiau. Maent yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith ac yn hunangywiro ac ailddrafftio’n hyderus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu darnau dychmygus, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson o safbwynt un o oroeswyr trychineb Aberfan.

Ar draws yr ysgol, mae safon rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn dda. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn hyderus wrth gyfri ac yn fedrus wrth rifo fesul tri, pedwar a deg ac yn defnyddio'u gwybodaeth i gyfri'r trysor yng nghist y môr leidr. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle, siâp, mesur, amser ac arian. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn dangos dealltwriaeth gadarn o dermau rhifedd. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu.

Yn y blynyddoedd ar frig yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddeallus mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm, yn enwedig o fewn gweithgareddau datrys problemau. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd a wna disgyblion Blwyddyn 6 o'u gwybodaeth am rannu i ddarganfod faint o amser y byddai'n cymryd i wahanol ddeunyddiau golli eu hymbelydredd.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella'n gyson wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfuno eu medrau'n llwyddiannus, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau er mwyn symud y teclyn rhaglenadwy i'r cyfeiriad cywir o gwmpas y parc. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu gallu i gyfuno dulliau amlgyfrwng mewn ffyrdd cynyddol gymhleth. Maent yn creu testun, delweddau, graffeg, cerddoriaeth a fideo mewn cyfuniad er mwyn darparu cyflwyniadau effeithiol, er enghraifft mewn cyflwyniad ynglŷn â gwarchod yr hinsawdd.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob disgybl yn hapus ac yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion o amgylch yr ysgol yn dda iawn ac maent yn gwrtais a siriol â'i gilydd ac yn cyfarch staff ac ymwelwyr yn gyfeillgar. Mae bron bob un disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda yn y gwersi ac yn aeddfed a chyfrifol ar yr iard chwarae. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi i drafod os oes pryder yn codi. Mae gan bron pob un ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel, ac yn arbennig o ran e-ddiogelwch.

Mae gan bron bob un disgybl ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n iach a heini. Maent yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymarfer corff ac yn mwynhau defnyddio offer ar yr iard yn ystod cyfnod egwyl. Mae gan Lysgenhadon Efydd rôl arbennig o fewn yr ysgol wrth gynnal a chwarae gemau gyda disgyblion iau yr ysgol. Mae'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd mewn gwersi addysg gorfforol ac mae llawer yn croesawu a mwynhau'r clybiau chwaraeon a gynhelir ar ôl ysgol sydd wedi ailgychwyn yn dilyn y cyfnod clo yn ystod y pandemig. Mae gweithgareddau amrywiol yr ysgol yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i fod yn unigolion iach a hyderus, ac maent yn deall sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â'u diet.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol. Maent yn mynegi barnau dilys am beth i ddysgu er mwyn datblygu eu dealltwriaeth ymhellach yn synhwyrol. Mae disgyblion sy'n ymgymryd â rolau arwain yn gwneud hynny'n frwdfrydig gan gymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac ymfalchïo yn eu llwyddiant. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn falch eu bod yn helpu'r athrawon a'r ysgol i fod yn well lle, tra bod y 'criw eco' yn awyddus i 'helpu'r byd' ac wedi bod yn casglu ysbwriel o amgylch y pentref. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ymweld â mannau sy'n hybu eu

dealltwriaeth o ddiwylliannau a threftadaeth Cymru, fel ymweld â Big Pit a Sain Ffagan yn llwyddiannus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth eang o amrywiaeth ddiwylliannol ac yn dangos gofal am bobl eraill trwy drefnu a chymryd rhan mewn digwyddiadau elusennol. Maent yn ymwybodol o’u hawliau ac yn datblygu’n ddinasyddion moesegol drwy eu hymwybyddiaeth o degwch a gofal dros eraill, er enghraifft drwy godi arian yn ddiweddar ar gyfer pobl a phlant Wcráin.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd ati i gwblhau tasgau’n gyflym, ac yn canolbwyntio’n dda ac yn ymgysylltu’n bwrpasol mewn gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos eu gallu i ddyfalbarhau ac arddangos gwydnwch wrth gwblhau tasgau. Maent yn cydweithio’n dda ac yn gwrando ar farn ei gilydd mewn gwaith parau neu grwpiau i ddatrys problemau, a hynny heb gefnogaeth oedolion. Er enghraifft, cydweithiodd disgyblion ar frig yr ysgol ar dasgau heriol gan greu cwrs er mwyn trosglwyddo fflasgiau niwclear o un parth i barth arall o fewn amser penodol gan ystyried diogelwch er mwyn osgoi peryglu bywyd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ifanc yr ysgol, yn gweithio’n annibynnol yn hyderus. Wrth wynebu unrhyw anhawster â’u gwaith, maent yn dilyn y drefn o fyfyrio, trafod a chydweithio â chyd-ddisgyblion cyn gofyn am gymorth gan athrawon neu gynorthwywyr. Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy’n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2021-2022. Bydd arolygwyr, fodd bynnag, yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae perthynas waith gofalgar a chefnogol yn bodoli rhwng staff a’r disgyblion ar draws yr ysgol. Mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn cydweithio’n llwyddiannus, yn cefnogi’r dysgu’n effeithiol, ac yn cynnig ymyraethau pwrpasol i ddisgyblion, sy’n cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae’r rhan fwyaf o'r staff yn modelu iaith raenus yn llwyddiannus ac yn annog a chefnogi’r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg safonol yn gyson. Maent yn holi’n effeithiol i atgyfnerthu ac ymestyn dealltwriaeth y disgyblion ymhellach ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau llafar. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae’r ddarpariaeth o ran datblygu medrau llafar Cymraeg y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy'r Saesneg yn datblygu’n llwyddiannus, a chaiff y disgyblion gyfleoedd niferus i ddatblygu eu gwybodaeth am hanes a diwylliant eu hardal leol a Chymru.

Mae’r ysgol yn gwneud cynnydd cadarn tuag at weithredu cwricwlwm sy’n ymgorffori egwyddorion a diwylliant y Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr a staff wedi cydweithio â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i lunio gweledigaeth a dylunio a datblygu cwricwlwm sy’n ymgorffori’r pedwar diben ac sy’n berthnasol i gymuned Llandybie. Mae’r disgyblion ar draws yr ysgol yn cael cyfleoedd buddiol a chynyddol i gyfrannu at drywyddau penodol sydd o ddiddordeb iddynt ac i bennu’r themâu o fewn

eu dosbarthiadau. Mae'r ysgol hefyd yn manteisio ar gyfleoedd parhaus i gyfoethogi'r cwricwlwm, er enghraifft drwy deithiau addysgol, gwahodd ymwelwyr i'r ysgol a mewnbwn gan arbenigwyr.

Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau, mae ymarferwyr yn sicrhau cyflymder addas i'w gwersi ac yn annog y disgyblion i gydweithio â'i gilydd i gwblhau tasgau a datrys problemau go iawn. Mae cynllunio'r athrawon yn sicrhau bod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau annibynnol a'r rhai sy'n cael eu harwain gan oedolion. Mae gan lawer o'r disgyblion fynediad cyson i'r ardaloedd allanol ac maent yn elwa'n fawr o weithgareddau diddorol y tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymrwymiad ac ymroddiad y disgyblion i'w gwaith yn ogystal â meithrin eu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Er bod cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wneud penderfyniadau a dewisiadau mewn perthynas â'r hyn y maent am ei ddysgu, mae llai o gyfleoedd iddynt wneud penderfyniadau drostynt eu hunain o ran p'un yw'r dull neu gyfrwng mwyaf addas i gofnodi gwybodaeth benodol.

Ar y cyfan, mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm gan sicrhau eu bod yn ehangu a dyfnhau eu medrau ymhellach. Yn yr arfer orau, mae'r athrawon yn barod iawn i arbrofi a mentro wrth gynllunio darpariaeth gyfoes, eang a chyffrous o fewn cyd-destunau dilys. Mae'r profiadau a gynllunnir yn cynnig her a sbardun ac yn galluogi'r disgyblion i gymhwyso a datblygu ystod eang o fedrau, ar y lefel her briodol. Mae'r gweithgareddau yn tanio'u dychymyg a datblygu eu creadigrwydd yn llwyddiannus iawn, er enghraifft wrth ddefnyddio eu medrau codio er mwyn cynnwys teclyn diogelwch o fewn siaced achub y maent wedi ei dylunio a chreu eu hunain. Mae gweithgareddau fel hyn yn sicrhau ymglymiad llwyr y disgyblion yn eu dysgu ac yn datblygu eu medrau'n gydlynol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, nid yw'r profiadau dysgu a gynllunnir yn galluogi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau o fewn yr ardaloedd dysgu y tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Yn gyffredinol, nid yw'r ardaloedd dysgu hyn ychwaith yn rhai ysgogol a deniadol sy'n ysbrydoli'r disgyblion i ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu amcanion eglur ar gyfer gwersi a gwneir defnydd cyson o feini prawf llwyddiant er mwyn i'r disgyblion ddatblygu hyder wrth hunanwerthuso eu hymdrechion a'u cynnydd nhw a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon a'r cynorthwywyr yn defnyddio technegau holi amrywiol yn effeithiol er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Maent yn cynnig adborth llafar cynhwysfawr i'r disgyblion, ac yn dilyn cyfnod o dreialu diweddar, mae'r athrawon wedi mireinio a miniogi'r adborth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion. Er yn ddyddiau cynnar, mae hyn yn cychwyn cynorthwyo'r disgyblion ymhellach i wella eu gwaith a gwneud cynnydd yn eu dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar sydd â threfniadau effeithiol ar gyfer darparu gofal i'r disgyblion. Mae pwyslais cryf ar annog y disgyblion i ofalu am ei gilydd ac ar hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da a chwrteisi. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion ac mae staff yn darparu cyfleoedd cyson iddynt drafod eu teimladau a'u hemosiynau. Enghraifft dda o hyn yw Clwb Lles Llandybie, lle y gall pob disgybl sy'n dymuno trafod eu pryderon â staff yn ystod amseroedd chwarae, a hefyd y Cornel Clonc ar gyfer y disgyblion iau. Mae'r hafanau

hyn yn galluogi'r staff i fesur cyflwr cymdeithasol ac emosiynol disgyblion er mwyn ymdrin â phroblemau yn gynnar fel bod y disgyblion yn barod i ddysgu yn y gwersi. Mae darpariaeth y cynllun llythrennedd corfforol hefyd yn cyfrannu'n fawr tuag at hyrwyddo cyd-chwarae a chydweithio gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol.

Agwedd nodedig yw'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae athrawon yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion ar eu taith trwy'r ysgol ac yn dadansoddi'r wybodaeth yn briodol. Maent yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gyflym ac yn darparu ymyraethau sy'n targedu eu hanghenion penodol yn llwyddiannus iawn. Ceir cydweithio arbennig rhwng y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac uwch gymhorthydd yr ysgol. Mae ganddynt adnabyddiaeth drylwyr o anghenion disgyblion ac maent yn darparu ymyraethau o ansawdd uchel mewn awyrgylch gynnes, dawel a hynod weithgar. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson dda yn erbyn eu targedau personol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gynhyrchiol â'r rhieni. Mae'r polisi drws agored yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol rhwng athrawon a rhieni. Defnyddir amrywiaeth o gyfryngau'n llwyddiannus i hysbysu am weithgareddau a digwyddiadau allweddol. O ganlyniad, mae'r rhieni'n ymwybodol o weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol.

Mae nifer o bwyllgorau gweithgar yn hybu llais y disgybl yn ddeallus. Maent yn eu hannog i gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau synhwyrol er lles eu cyfoedion a'r ysgol. Enghraifft gadarnhaol o hyn yw sut mae'r Criw Cymraeg yn gweithio'n ddiflino i hybu'r Gymraeg gan wobrwyo cyd-ddisgyblion ac ymwelwyr am siarad Cymraeg o amgylch yr ysgol ac wrth gyd-chwarae â'u cyfoedion yn ystod amseroedd chwarae. Mae'r Llysgenhadon Efydd hefyd yn llwyddo'n dda i gefnogi'r disgyblion iau trwy drefnu a chwarae gemau yn ystod amser egwyl.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio a chyd-addoli, gan feithrin moesoldeb a dealltwriaeth o eraill mewn ffordd sensitif a pharchus. Mae'r athrawon yn annog yr holl ddisgyblion i gyfrannu'n ddoeth i'r gymuned, er mwyn datblygu fel dinasyddion cyfrifol sy'n barod i helpu eraill. Mae eu gwaith o fewn eu cymuned yn cyfrannu'n effeithiol at hyn, fel ymweld â'r cartref henoed i gynnal sesiynau aerobeg cadair gyda'r preswylwyr. Mae darpariaeth yr ysgol i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn datblygu'n dda ac, yn ddiweddar, cynhaliwyd Eisteddfod ysgol er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu'u defnydd llafar o'r Gymraeg a'u medrau cymdeithasol a chreadigol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r athrawon yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw. Er enghraifft, mae Elyrch Abertawe yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol i ddatblygu medrau pêl droed a chydweithio'r disgyblion. Fel rhan o waith yn ymwneud â'r thema Pencampwyr, mae disgyblion wedi mwynhau gweithgareddau corfforol amrywiol ym Mhembre. Mae ymweliadau gan unigolion fel yr heddwas yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o beryglon camddefnyddio sylweddau ac ysmygu ynghyd â pheryglon cam-ddefnyddio'r we. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd gofalu am eu hiechyd a chadw'n ddiogel

ar-lein. Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cadarn ac nid oes materion sy'n peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn i’r ysgol, sy’n sicrhau cyfeiriad strategol effeithiol a diwylliant sy’n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddi weledigaeth eglur sy’n seiliedig ar sicrhau bod lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o waith yr ysgol. Mae’n rhannu’r weledigaeth honno â’r staff, disgyblion, rhieni a’r llywodraethwyr yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gan bron pawb ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, ei gilydd ac o safonau cyflawniad disgyblion.

Mae aelodau’r uwch dîm arwain ac aelodau eraill y staff yn cydweithio’n hwylus, yn cyflawni eu rolau’n  llwyddiannus ac yn cefnogi’r pennaeth yn fwriadus. Mae arweinwyr yn cynllunio’n effeithiol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae’r staff yn frwdfrydig wrth fynd i’r afael â datblygiadau diweddar ym maes addysg, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru a chyflwyno elfennau allweddol o ran eu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ffocws yr ysgol gyfan ar hybu’r Gymraeg a Chymreictod yn briodol ac yn datblygu balchder y disgyblion tuag at eu hunaniaeth a’u treftadaeth.

Mae blaenoriaethau’r ysgol ar gyfer gwella yn seiliedig ar amrediad da o dystiolaeth uniongyrchol ac mae dealltwriaeth y staff ohonynt yn gadarn. Mae gweithdrefnau effeithiol i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer gwella ynghyd â chamau addas i’w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad gofalus o ddeilliannau’r disgyblion, craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi. Mae’r holl athrawon yn cymryd rhan weithredol yn y broses o fonitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod eu hysgol yn dda ac yn mynd i’r afael â rhan fwyaf o’r gwelliannau’n gyflym a llwyddiannus.

Mae’r arweinwyr yn dosrannu cyfrifoldebau er mwyn mynd i’r afael â blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol yn dda. Mae trafodaethau a chyfarfodydd staff yn adeiladu rhwydwaith o gyfathrebu gwerthfawr, sy’n arwain at strategaethau buddiol i dargedu’r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. O ganlyniad, mae ffocws clir ganddynt ar sut i wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r disgyblion a chreu gwelliannau adeiladol.

Mae gan aelodau’r corff llywodraethol wybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau’r ysgol ar safonau a lles y disgyblion. Caiff cyfrifoldebau eu rhannu’n effeithiol drwy ystyried arbenigeddau unigolion. Maent yn cynnal ymweliadau cyson i werthuso effaith unrhyw weithredu ar ansawdd y ddarpariaeth a’i effaith ar gynnydd a lles disgyblion. Mae’r corff llywodraethol yn herio’r ysgol yn dda ac yn cyfrannu’n helaeth i brosesau gosod arweiniad a strategaethau clir er mwyn ei datblygu ymhellach fel cymuned ddysgu lwyddiannus. Mae’r elfen ryngweithiol rhwng aelodau’r corff a staff yr ysgol yng nghyd-destun anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder amlwg. Maent yn cydweithio ag arweinwyr a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Nodwedd gadarn o’r arweinyddiaeth yw’r cyfleoedd pwrpasol a gaiff staff ar bob lefel i ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd da iddynt rannu arfer yn fewnol a gydag ysgolion cyfagos. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo dysgu proffesiynol athrawon yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar

safonau. Er hynny, nid yw amcanion rheoli perfformiad staff bob amser yn ddigon penodol er mwyn gwerthuso effaith unrhyw weithredu ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r pennaeth yn cefnogi athrawon yn dda i gynnal ymchwil ar agweddau o’u hymarferion dosbarth er mwyn adnabod effaith ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae’r berthynas sy’n bodoli rhwng yr ysgol a’r rhieni yn un gadarn. Mae’r ysgol yn gweithredu polisi drws agored ac yn cyfathrebu’n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau o ddydd i ddydd. Mae'r rhieni’n gwerthfawrogi hyn.

Mae gwariant yn cysylltu’n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella’r ysgol. Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllideb yr ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion ym mhob maes. Maent yn monitro’r cyllid yn ofalus i sicrhau’r defnydd gorau ohono. Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau’r disgyblion sy’n gymwys i’w dderbyn. Mae'r gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau lles ac agweddau disgyblion tuag at eu gwaith. Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau safonol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/09/2022